

Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Tystiolaeth i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Amdanoch Chi

Sefydliad: Dyfodol i'r Iaith

1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y [Bil Cwricwlwm ac Asesu\(Cymru\)](#)?

Nac ydw

1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)

Ni allwn gefnogi rhai o gymalau'r Bil: yn benodol, Rhan 1, 3.2. a Rhan 2, Pennod 2, 26 a 27.

Mae ein gwrthwynebiad i'r cymalau uchod yn seiliedig ar eu heffaith ar ddysgu ac ar statws y Gymraeg. Credwn eu bod yn tanseilio ac yn bygwth dadwneud ymdrechion allweddol y blynyddoedd diwethaf ym maes addysg drochi yn y Gymraeg. Byddai unrhyw fygythiad i hynny'n tynnu'n groes i ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau twf y Gymraeg ac yn debygol o leihau'n sylweddol cyfleon cenedlaethau'r dyfodol i ddod yn siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn ymhelaethu ar hyn yn adrannau 3.1. a 6.1. isod

1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

-

2. Gweithredu'r Bil

2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

-

2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

-

3. Canlyniadau anfwriadol

3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

Gobeithiwn ac yn wir tybiwn nad oedd bwriad i danseilio'r Gymraeg yn y Bil hwn, ac felly byddwn yn pwysu ar y Pwyllgor i fynnu ar eiriad amgen i'r cymalau dan sylw a chynnig fersiwn sy'n well adlewyrchiad o feddylfryd ac amcanion polisi'r Llywodraeth. Tanlinellwyd amcan honedig y Llywodraeth mewn ymateb gan y Gweinidog Addysg i bryderon Dyfodol i'r laith- "Mae gan addysg a'n cwricwlwm newydd rôl allweddol i'w chwarae wrth inni anelu at gyrraedd nod miliwn o siaradwyr Cymraeg" (19 Awst 2020)

4. Goblygiadau ariannol

4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r [Memorandwm Esboniadol](#))? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

-

5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r [Memorandwm Esboniadol](#))? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.)

-

6. Ystyriaethau eraill

6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)

Cyn ymhelaethu ar ein pryderon, dymunwn ddatgan bod ein hymateb yn rhan o gonsensws ymysg mudiadau sy'n cefnogi'r Gymraeg, a bod Dyfodol i'r Iaith yn cynnig y sylwadau isod fel aelod o Fudiadau Dathlu'r Gymraeg ac fel rhan o'u hymgyrch i ddiwygio Bil y Cwricwlwm ac Asesiad (Cymru).

Credwn y tanseilir y Gymraeg o fewn y Bil o'r cychwyn cyntaf. Yn Rhan 1, 3.2., rhestrir y Saesneg (yn ogystal â'r Gymraeg) fel elfen fandadol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Ar yr olwg gyntaf, rhoes hyn statws cydradd i'r ddwy iaith, ac eto, byddwn yn dadlau'n frwd bod hwn yn camwahaniaethu yn erbyn y Gymraeg. Yng nghyd-destun ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu'r Gymraeg, sydd yn wynebu grym aruthrol iaith ryngwladol fel Saesneg, mae angen rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg yn y sector meithrin. Rhaid cofio mai hyrwyddo'r Gymraeg yw'r unig ymateb priodol a bod angen camau rhagweithiol i sicrhau hynny.

Amlygir y broblem ym Mhennod 2 y Bil yng nghymalau 26 a 27, sy'n caniatáu datgymhwyso'r Saesneg fel elfen fandadol. Yng ngoleuni'r ffaith bod nifer o awdurdodau lleol eisoes yn darparu addysg drochi ddiodyn yn y Gymraeg i blant dan 7 oed, yna'n amlwg mae'r cymal hwn yn cymryd cam yn ôl, drwy fynnu mai'r Saesneg yw'r norm fel cyfrwng addysg a bod angen gwneud eithriad ar gyfer y Gymraeg.

Nid dadl semanteg yw hon, gan fod y dyfarniad hwn yn 'amodol ar benderfyniad pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol neu ysgol feithrin'. Drwy'r gadwyn wallus hon o ymresymu, gwelwn y byddai'n bosib i ysgolion neu ysgolion meithrin unigol dynnu'n groes i bolisi

awdurdod lleol o ddarparu addysg cyfrwng Gymraeg i blant dan 7 oed, ac y byddai hyn wedyn yn rhoi'r plant hynny dan anfantais ieithyddol yn ddiweddarach yn eu gyrfa addysgol.

Dylai Bil y Cwricwlwm, o ran y Gymraeg, annog y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysg nifer cynyddol o blant dan 7 oed. Mae angen y flaenoriaeth yma i gadarnhau dull trochi ieithyddol sydd yn llwyddiannus ledled y byd, ac i roi i blant sylfaen ieithyddol gadarn yn y Gymraeg a fydd maes o law yn peri y byddant yn meistrolï o leiaf dwy iaith erbyn bod yn 16 oed.

Byddwn yn pwysu ar y Pwyllgor i argymhell geiriad amgen, neu o leiaf ffurf o ddiogelwch atodol, sy'n ddigon cadarn i sicrhau cydnabyddiaeth a chefnogaeth lawn i'r egwyddor hwn a'r holl waith da wnaethpwyd eisoes ym maes trochi ieithyddol.

